



YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL

Pennaeth/Head:
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090

ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk

www.glantaf.cymru

20 Ionawr 2023

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Llwyddiant arholiadau

Dymunwn longyfarch yn ddiffuant ein carfan BI11 am eu llwyddiant TGAU Rhifedd yr wythnos diwethaf, a'u canmol am eu gwaith caled a'u paratoi'n trylwyr o ran cyflawni 65% A*-C yn eu harholiad mis Tachwedd. Dylai hyn fod yn hwb gwirioneddol yn hyder pob disgybl wrth iddynt barhau â'u hastudiaethau ar gyfer arholiadau'r haf. *Da iawn chi wir!*

Aelod newydd i gymuned Glantaf!

Rydym yn falch iawn o groesawu bws mini newydd 16 sedd i Glantaf a fydd yn ehangu ein gallu i fynd â disgyblion ar ymweliadau allgyrsiol ac addysgol. Mae gan y bws newydd hefyd gyfleuster ramp / cadair olwyn sy'n sicrhau y bydd gennym yr hyblygrwydd i fod yn gwbl gynhwysol i bob disgybl yn y dyfodol.



Er mwyn ariannu ein bws mini newydd rydym yn rhoi rhag-hysbyseb am ein gweithgaredd *Cyfeillion Glantaf* nesaf – *Twmpath Dawns* ar y 24^{fed} o Fawrth. Mae tocynnau (£15) ar gael nawr ar ParentPay a gofynnwn yn garedig i chi gadw'r dyddiad a gwahodd eich ffrindiau a'ch teulu i ymuno â ni ar gyfer noson wych o adloniant gan y band *Pluck and Squeeze*, Baedd Rhost a llawer mwy!

Dewisiadau blwyddyn 11 ac ôl-16

Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn trafod opsiynau ôl-16 gyda'n carfan BI11, gan gyflwyno ein cyrsiau helaeth yn y Chweched Dosbarth a thrwy ein partneriaeth BroPlasTaf. Bydd hyn yn cynnwys gofyn i unigolion am eu dewisiadau opsiwn (ffurflen Google erbyn 8/2/23), er mwyn creu colofnau opsiwn ar gyfer Medi 2023.

Nôl ar y trywydd iawn!

Wrth i ni ddechrau'r flwyddyn newydd, gofynnwn unwaith eto am eich cefnogaeth i sicrhau bod disgyblion yn cynnal ffigurau presenoldeb cryf ac yn brydlon i'r ysgol yn y boreau. Yn anffodus, roedd dros 100 o fyfyrwyr yn hwyr i'r ysgol ar sawl diwrnod yr wythnos diwethaf, sy'n golygu y byddwn nawr yn tracio disgyblion sy'n gyson hwyr a byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i geisio gwella'r sefyllfa. Rydym yn cefnogi ymgyrch Cyngor Caerdydd i sicrhau'r canran uchaf o bresenoldeb ac i dynnu sylw at bwysigrwydd presenoldeb uchel a'i berthynas â lles a chyrrhaeddiad.



Dawns Ffarwel Blwyddyn 11 – Dydd Iau 29 Mehefin 2023

Mae taliad Cinio a Dawns Ffarwel BI11 ar Parent Pay erbyn hyn, gyda'r taliad olaf o £33 i'w dalu erbyn diwedd mis Mai. Cynhelir y ddawns ar nos Iau 29 Mehefin yn y Gyfnewidfa Lo ym Mae Caerdydd.

Opsiynau Blwyddyn 9 > Bl10 – 6 Mawrth 2023

Wrth i fyfyrwyr ddechrau ystyried dewisiadau opsiwn ar gyfer y flwyddyn nesaf, rydym am eich hysbysu o noson rieni ychwanegol i Bl 9 a gynhelir yng Nglantaf ddydd Llun 6 Mawrth. Byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth gyda chi ynglŷn â'r noson hon yn agosach at y dyddiad.

Cymorth arholiadau ac adolygu

Hoffem eich atgoffa bod cymorth ar gael i bob dysgwr yng Nghymru drwy wefan *Lefel Nesa*. Gall myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer TGAU, AS, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol dddod o hyd i wybodaeth am arholiadau ac asesiadau eleni, yn ogystal ag awgrymiadau adolygu a chymorth lles drwy'r dudalen we hon: [Lefel nesa Cymru | LLYW.CYMRU](https://www.lefelnesa.gov.uk/)

Band Pres ymarfer y sir – Bl7-9

Rydym yn falch iawn bod Band Pres ymarfer y sir wedi ei sefydlu ac yn cynnal ymarferion yng Nglantaf bob nos Fercher 5pm-6pm. Mae croeso i unrhyw ddisgyblion bl.7-9 ymuno â'r band a dylent gysylltu â'r adran gerdd am ragor o fanylion.

Aelodaeth yr Urdd a'r Eisteddfod ysgol: [Join | Urdd Gobaith Cymru](#)

Rydym yn edrych ymlaen at gynnal Eisteddfod Glantaf yn y Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol, Gerddi Soffia ar ddydd Iau 16 Chwefror. Bydd holl ddisgyblion Bl 7-9 a'n Chweched Dosbarth yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod dan arweiniad ein harweinwyr llys: Ms Rhiannon Kemp (Teilo); Mrs Rhianedd Davies (Illtud); Ms Ffion Jenkins (Dyfrig) a Mr Lloyd Macey (Dewi). Bydd bl 10 ac 11 yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer arholiadau'r haf ac fe fydd ganddyn nhw wersi yn yr ysgol ar ddydd yr Eisteddfod. Nodyn i'ch atgoffa hefyd y bydd disgyblion yn cael gwahoddiad i ymuno neu gystadlu yng nghystadlaethau Eisteddfod yr Urdd neu Chwaraeon yn ystod y tymor hwn - os nad ydych wedi trefnu aelodaeth yr Urdd mae'r ddolen uchod, gyda'r disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gallu ymuno am ddim. Os oes unrhyw ddisgybl yn dymuno cystadlu mewn cystadlaethau unigol ar gyfer Eisteddfod yr Urdd mae angen iddyn nhw i gofrestru eu diddordeb drwy ebostio Ms Bethan Rees yn yr ysgol ar reesB247@hwbcymru.net

Digwyddiadau Tymor y Gwanwyn

Hoffwn hefyd eich atgoffa o ychydig o ddigwyddiadau sydd ar y gweill yn ystod y tymor hwn:

25 Ionawr	Gweithdy Bl 10 gyda Phrif Arolygydd Estyn, Owen Evans
26 Ionawr	Gweithdai adolygu i Bl 10
27 Ionawr	Dydd Bioleg Bl 11 (Gwyddoniaeth driphlyg)
31 Ion - 3 Chwe	Bl 12 Gwaith maes Daeryddiaeth yng Nglan-llyn
2 Chwefror	Bl 13 Noson Rhieni (i'w chynnal yn yr ysgol 3.15 - 6.30pm)
6 Chwefror	Lluniau Bl 11 a Bl13 – unigolion, grwpiau cyfeillion a llun blwyddyn gyfan
9 Chwefror	Bl 10 Noson Rhieni (i'w chynnal yn yr ysgol 3.15 – 6.30pm)
15 Chwe	Bl 12 Adroddiadau Llawn
16 Chwe	Eisteddfod Ysgol

Cofiwch, os ydych yn dymuno cysylltu â ni ynglŷn ag unrhyw eglurhad, esboniad neu ymholiad, gweler ein gwefan am y manylion cyswllt diweddaraf ar gyfer y Tim Arwain neu dim arwain cynnydd a lles.

Yn gywir

Matthew H T Evans

Pennaeth /Pen

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

BYG (Byw yn y Gymraeg)

A ydych yn poeni am y Gymraeg a'f dyfodol?
A ydych yn meddwl y dylai mwy o ddisgyblion Ysgol Glantaf siarad Gymraeg ar yr leoliad ar y coridorau?
A ydych yn meddwl bod siarad mwy o Gymraeg yn mynd i wella'ch gwaith ysgol?
A oes dyletswydd arnom i geisio gwella'ch cyswllt ein defnydd ni o'r Gymraeg?

Os ydych wedi ateb 'Yeh' i'r cwestiynau hyn:
A ydych yn meddwl y gallwch chi gyfrannu i gaisio Cymraegio Ysgol Glantaf, a chael mwy o ddisgyblion i siarad Gymraeg?

Dewch i ymuno â BYG (Byw yn y Gymraeg) - pwyllgor bywiog lle cewch y cyfle i siarad a mynegi eich barn ar y pwnc holl bwysig hwn. Eich Ysgol chi ydy Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf felly tybed a allwch chi gyfrannu at yr her hollbwysig hon?

Dewch yn llw!

Dydd Mercher : 12.15 – 12.45 – Bl. 7, 9, 11 yn M10
13.15 – 13.45 – Bl. 8, 10, 6ed yn M10

BYG: Grŵp myfyrwyr newydd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yng nghymuned yr ysgol - mae'n cyfarfod bob wythnos ar ddydd Mercher!